# Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013

**2013 dccc 2**

*Amrywiol a chyffredinol*

**23 Canllawiau**

Caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi canllawiau—

(a) i'r ASB;

(b) i awdurdod bwyd,

mewn perthynas ag arfer eu swyddogaethau o dan y Ddeddf hon.

**24 Diwygio cyfnodau i gydymffurfio â dyletswyddau**

Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf hon sy'n pennu cyfnod pryd y mae'n rhaid gwneud rhywbeth drwy roi cyfnod arall yn ei le.

**25 Dehongli**

(1) Yn y Ddeddf hon—

ystyr mater "a ragnodir" ("*prescribed*") yw mater sydd yn cael ei ragnodi mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru;

mae i'r ymadrodd "ailsgoriad" ("*re-rating*") yr ystyr sydd iddo yn adran 12;

ystyr "anfon" ("*send*") yw anfon drwy'r post neu ddanfon â llaw;

mae i'r ymadrodd "awdurdod bwyd" ("*food authority*") yr ystyr sydd iddo yn adran 2;

mae i'r ymadrodd "gweithredwr" ("*operator*") (sefydliad busnes bwyd) yr ystyr sydd iddo yn adran 2;

mae i'r ymadrodd "meini prawf sgorio" ("*rating criteria*") yr ystyr sydd iddo yn adran 3;

mae i'r ymadrodd "sefydliad busnes bwyd" ("*food business establishment*") yr ystyr sydd iddo yn adran 2;

mae i'r ymadrodd "sgôr hylendid bwyd" ("*food hygiene rating*") yr ystyr sydd iddo yn adran 3;

ystyr "swyddog awdurdodedig" ("*authorised officer*") yw swyddog a awdurdodwyd yn ysgrifenedig gan awdurdod bwyd at ddibenion arfer unrhyw un neu rai o swyddogaethau'r awdurdod o dan y Ddeddf hon.

(2) Mae cyfeiriadau yn y Ddeddf hon at sticer sgôr hylendid bwyd yn cynnwys, pan fo'r cyd-destun yn mynnu hynny, cyfeiriad at fwy nag un sticer.

## 26 Rheoliadau

(1) Mae pwerau i wneud rheoliadau neu orchmynion o dan y Ddeddf hon yn arferadwy drwy offeryn statudol.

(2) Mae pŵer i wneud gorchymyn neu reoliadau o dan y Ddeddf hon yn cynnwys pŵer i wneud unrhyw ddarpariaeth gysylltiedig, canlyniadol, trosiannol neu atodol y gwêl Gweinidogion Cymru yn dda.

(3) Yn achos y pŵerau o dan adrannau 2(6), 3(2) a 3(5) mae'r ddarpariaeth hon yn cynnwys darpariaeth i ddiwygio'r Ddeddf hon.

(4) Ni chaniateir i Reoliadau o dan adrannau 2(6), 3(2), 3(5), 5(8), 6(2), 10, 24 a pharagraff 3 o'r Atodlen gael eu gwneud oni bai bod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gymeradwyo drwy benderfyniad ganddo.

(5) Mae rheoliadau eraill a wneir o dan y Ddeddf hon yn ddarostyngedig i'w diddymu'n unol â phenderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

## 27 Cychwyn

(1) Mae'r adran hon yn dod i rym ar ddiwedd y cyfnod o 2 fis sy'n dechrau â'r diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol.

(2) Daw gweddill darpariaethau'r Ddeddf hon i rym ar ddiwrnod a bennir drwy orchymyn i'w wneud gan Weinidogion Cymru.

(3) Caiff gorchymyn a wneir o dan yr adran hon—

(a) bennu diwrnodau gwahanol at ddibenion gwahanol (gan gynnwys diwrnodau gwahanol ar gyfer categorïau gwahanol o sefydliad busnes bwyd);

(b) gynnwys unrhyw ddarpariaeth drosiannol, darpariaeth darfodol, neu ddarpariaeth arbed y gwêl Gweinidogion Cymru eu bod yn angenrheidiol neu hwylus.

## 28 Enw Byr

Enw byr y Ddeddf hon yw Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013.